

## Y Drefn Ddyrchafu i Uwch Ddarlithyddiaeth

### 1 Rhagarweiniad

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth benodol am geisiadau am ddyrchafiad i swydd Uwch Ddarlithydd, a dylid ei darllen ochr yn ochr â Pholisi'r Brifysgol ar Ddyrchafu ac Ailraddio.

Mae dyrchafiad i radd uwch ddarlithydd ar gael i'r rhai hynny sydd wedi dangos y lefel ofynnol o gyfraniad a'r llwyddiant a nodir yn y meincnodau ar gyfer dyrchafiad.

### 2 Meini Prawf ar gyfer Dyrchafu i Uwch Ddarlithyddiaeth

Mae'r Brifysgol yn cydnabod mai graddfa Darlithydd yw'r raddfa yrfaol arferol, ac o'r farn na ellir seilio'r achos dros ddyrchafu/ ailraddio ond ar lwyddiannau neu gymwysterau y tu hwnt i'r rheiny sy'n ofynnol er mwyn cyflawni dyletswyddau darlithydd yn foddhaol.

Caiff ymgeiswyr wneud cais am ddyrchafiad ar sail rhagoriaeth mewn ymchwil neu addysgu a dysgu, neu o ran effaith ar y Brifysgol a chyfraniad ar raddfa ehangach ati. P'un bynnag o'r meini prawf uchod y bo ymgeiswyr yn ei ddewis yn *brif sail* dros y cais, rhaid iddynt dangos eu bod yn fedrus ac yn effeithiol yn **un o'r meysydd eraill neu'r ddau** - a fyddech cystal ag edrych ar y meini prawf meincnodi manwl i weld y meincnodau a'r dangosyddion yn y tri maes.

Felly, dylai ymgeiswyr ddangos eu bod wedi cyfrannu ar draws rhychwant amcanion strategol y Brifysgol, a hynny ar ben y rhagoriaeth y gallant ei nodi yn y maes o'u dewis.

### 3 Meini Prawf a Dangosyddion o ran Dyrchafu

Mae'r meincnodau a welir yn nogfen y 'Meincnodau a Dangosyddion Asesu ar gyfer dyrchafu i Uwch Ddarlithyddiaeth' yn amlinellu'r meysydd allweddol y mae'r Panel Dilysu'n ceisio tystiolaeth arnynt. Mae'r meincnodau wedi'u hategu gan y dangosyddion sydd wedi'u cynllunio i beidio â bod yn hollgynhwysol nac yn rhagnodol ond, yn hytrach, yn enghreifftiau o'r dystiolaeth y disgwylir iddi gael ei hamlinellu mewn cais: *ni ddisgwylir i ymgeiswyr ateb yr holl feini prawf ym mhob maes*.

Cydnabyddir y bydd rhai meysydd yn fwy priodol i rai disgyblaethau na'i gilydd, a disgwylir y bydd y rheiny sy'n gwneud cais am ddyrchafiad yn cymhwyso eu tystiolaeth at eu disgyblaeth benodol. Yn yr un modd, bydd aelodau'r Panel Gwirio yn seilio eu barn yn unol â hynny.

### 4 Y Drefn Ddyrchafu:

Bydd aelod staff sy'n gwneud cais am ddyrchafiad yn:

- Llenwi'r 'Curriculum Vitae Academiaidd – Uwch Ddarlithydd'. Edrychwch ar y 'CV Academiaidd ar gyfer Uwch Ddarlithydd - Nodiadau Cyfarwyddyd' am wybodaeth fanwl am sut i gwblhau'r CV.
- Bydd Pennaeth yr Ysgol/ Deon y Coleg yn gwirio cywirdeb adrannau ffeithiol y CV.
- Darparu enwau tri chanolwr (bydd dau o'r rhain yn allanol) – dylai un canolwr fod yn wch aelod staff yn yr Ysgol) sy'n gwneud cais am ddyrchafiad yn llenwi'r CV safonol ac yn rhoi enwau tri chanolwr (y bydd dau ohonynt yn allanol – dylai un canolwr fod yn uwch aelod staff) a all gefnogi'r cais. Disgwylir y bydd y canolwyr allanol mewn swydd ar lefel uwch ddigonol (ar lefel athro fel rheol) ac arbenigedd i ddarparu geirda awdurdodol. **Dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod yn darparu copi o'u ffurflen gais i'w canolwyr er mwyn eu helpu i baratoi'r geirda.** Bydd pob geirda'n gyfrinachol. Caiff y cais wedyn ei anfon ymlaen at Bennaeth yr Ysgol / Deon y Coleg.